Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI450

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cynyddu Cyllid i Bobl yn Gyntaf Sir Benfro**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:**

Yn 2021, dyfarnodd y Weinidogaeth Gyfiawnder gyllid ychwanegol drwy Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i ddarparwyr gwasanaeth o fewn y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), i gydnabod y cynnydd mewn costau darparu'r gwasanaeth a'r cynnydd yn y galw ac yn y nifer o atgyfeiriadau a gafwyd o ganlyniad i'r pandemig Covid 19.

Ers 2022, mae hyn wedi ei drosglwyddo drwy gytundeb grant yn defnyddio cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder. O Ebrill 2026, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi rhoi cynnydd o 2% i'r gronfa hon, i'w ailadrodd yn 2027/28. Mae'r Comisiynydd wedi sicrhau bod y cynnydd hwn yn cael ei basio ymlaen i bob darparwr gwasanaeth sy'n derbyn y cyllid a glustnodwyd.

Derbyniwyd achos busnes gan Bobl yn Gyntaf Sir Benfro i roi tystiolaeth bod costau darparu gwasanaeth wedi cynyddu mwy na 2% ers y dyfarniad cychwynnol o gyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r achos busnes hwn wedi ei ystyried gan y Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau ac ystyrir ei fod yn darparu tystiolaeth i gyfiawnhau cynnydd ychwanegol. Roedd y dyfarniad gwreiddiol yn £4,800. Roedd y cais a dderbyniwyd am swm blynyddol o £15,910. Roedd £13,167 ar gyfer costau staffio a chefnogwyd hyn gan dystiolaeth o nifer a chymhlethdod yr achosion a gefnogir. Nid yw'r cyllid wedi ei gynyddu ers y dyfarnwyd y cytundeb grant cychwynnol yn Ebrill 2022.

Yn 2024/25 cefnogodd y gwasanaeth 29 aelod o oedd wedi bod yn ddioddefwyr trais domestig neu rywiol. Yn 2025/26, mae'r gwasanaeth wedi cefnogi 42 aelod, gan drosglwyddo dros 600 awr o gefnogaeth. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi sicrhau mynediad at gwnselydd arbenigol sydd wedi ei hyfforddi mewn anableddau dysgu ac awtistiaeth.

Cynigir bod y cynnydd staffio i gyfanswm blynyddol o £13,167 yn cael ei ymgorffori i'r cytundeb grant rhwng y CHTh a Phobl yn Gyntaf Sir Benfro o 1 Ebrill 2026.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Argymhelliad:**
Bod y CHTh yn cymeradwyo cyllid o £13,167 y flwyddyn ar gyfer 2026/27 a 2027/28 i Bobl yn Gyntaf Sir Benfro.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 22/04/2026**